

## **Cyflwyniad i Hawliau Plant**

*Gwers i gyflwyno plant yng Nghyfnod Allweddol Dau i hawliau plant a rôl Comisiynydd Plant Cymru.*

**Dydyn ni ddim wedi cynnwys amseriadau yn y wers hon, gan y byddwch o bosib am gynnal y gweithgareddau dros nifer o wersi.**

### **Cysylltiadau â'r cwricwlwm:**

Cwricwlwm i Gymru, Iechyd a Llesiant, WM5:

*Mae'r adnodd hwn yn helpu gyda dysgu PS2 a 3: 'Rwy'n gallu deall bod hawliau gan bawb, ac o gael cefnogaeth, rwy'n gallu parchu'r hawliau hynny.'*

Cwricwlwm i Gymru, Dyniaethau, WM5:

*Mae'r adnodd hwn yn helpu gyda dysgu PS2 a 3- 'Rwy'n gallu esbonio pwy sy'n gyfrifol am gynnal hawliau yn fy ardal leol ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach. Rwyf hefyd yn deall bod rhai pobl yn cael eu hamddifadu o'u hawliau.'*

Cwricwlwm i Gymru, Celfyddydau Mynegiannol, WM3:

*Mae'r adnodd hwn yn helpu i ddatblygu dysgu PS2 a 3- 'Rwy'n gallu cyfleu syniadau, teimladau ac atgofion i gynulleidfa ac at ddibenion a deilliannau yn fy ngwaith creadigol.'*

### **Geirfa Allweddol**

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):** y ddogfen ryngwladol sy'n cyflwyno hawliau plant.

**Hawliau:** "Pethau mae arnoch chi eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel"

**Comisiynydd Plant Cymru:** "Oedolyn yng Nghymru sy'n gweithio i helpu holl blant Cymru i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"

Gweithgareddau	Adnoddau a Gwybodaeth Ychwanegol
<p>Esboniwch wrth y disgyblion eich bod chi'n mynd i siarad am hawliau plant.</p> <p>“Hawliau plant yw'r pethau rydych chi angen i dyfu i fyny'n <b>hapus, yn iach ac yn ddiogel.</b>”</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am y pethau mae arnyn nhw eu hangen i dyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Cymerwch ateb gan bob disgybl a'u harddangos ym mlaen y dosbarth.</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion ystyried ydy'r holl blant yn eu hardal/ying Nghymru yn derbyn eu hawliau? Esboniwch fod gan <b>BOB</b> plentyn 0-18 oed ar draws y byd y 42 o hawliau yma (sy'n cael eu galw'n Erthyglau).</p> <p><b>Gêm le/Na/Falle</b> <i>Bydd y gêm yma'n ategu'r dysgu o'r drafodaeth flaenorol.</i></p> <p>Rhowch dri darn o bapur A4 ar y llawr: un yn dweud <b>Oes/le</b>; un <b>Falle</b> ac un <b>Nac oes/Na</b>. Esboniwch y byddwch chi'n gofyn cyfres o gwestiynau, a'ch bod chi eisiau i'r disgyblion feddwl drostyn nhw eu hunain a sefyll yn ymyl y mat sy'n adlewyrchu eu hateb.</p> <p>Gofynnwch ambell gwestiwn (gallech chi greu rhai eich hun sy'n addas ar gyfer anghenion eich disgyblion). Ar ôl pob cwestiwn, rhowch gyfle i'r disgyblion</p>	<p>Gallech chi ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol neu ofyn i'r disgyblion ddod i fyny ac ysgrifennu eu hateb ar fwrdd.</p> <p>Os oes prinder lle, gallech chi ofyn i'r disgyblion ddangos eu hateb gan ddefnyddio'u dwylo (bodiau i fyny ar gyfer oes, i lawr ar gyfer nac oes, ac yn y canol ar gyfer falle).</p>

<p>ddewis eu mat, gan ganiatáu amser i drafod. Cysylltwch y drafodaeth â'r prif Erthyglau.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae gan blant 3-18 oed hawliau plant. (Nac oes – atgoffwch y disgyblion fod gan BOB plentyn 0-18 oed hawliau plant).</li> <li>2. Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg (Oes – mae hyn yn cysylltu ag Erthygl 28)</li> <li>3. Dylai oedolion wneud beth sydd orau i blant (Ie – mae hyn yn cysylltu ag Erthygl 3)</li> <li>4. Mae gan blant hawl i fwyta siocled bob dydd (Nac oes)</li> <li>5. Mae gan bob plentyn hawl i gael anrhegion (Nac oes)</li> </ol>	
<p><b>Pwy sy'n fy helpu i gael (mynediad i) fy hawliau?</b></p> <p>Rhannwch y disgyblion yn grwpiau llai o 4-6 a rhowch boster hawliau a <a href="#">thaflen waith</a> i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion nodi'r chwe hawl maen nhw'n meddwl yw'r rhai mwyaf pwysig yn yr ysgol.</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion roi adborth ar y 6 hawl maen nhw'n meddwl sy bwysicaf yn yr ysgol.</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion roi adborth ar y 6 hawl ddewison nhw fel grŵp. Yna gofynnwch i'r disgyblion feddwl am berson (plentyn neu oedolyn, y tu mewn neu'r tu allan i leoliad yr ysgol), sy'n eu helpu i gael mynediad i bob hawl.</p> <p>Cefnogwch y disgyblion trwy gynnal trafodaeth a sbarduno syniadau'r disgyblion. Er enghraifft "mae athrawon a chynorthwywyr addysgu/CALU yn</p>	<p>Gallech chi ddarparu pecyn symbolau ar gyfer y disgyblion hefyd.</p>

<p>eich helpu i ddysgu, mae'r Heddlu / PCSOs yn helpu i'ch cadw'n ddiogel yn y gymuned".</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion am adborth ar eu syniadau.</p> <p>Os bydd disgyblion wedi nodi disgyblion eraill, arweiniwch drafodaeth i gysylltu hynny â pharch a chefnogi dosbarth ac ysgol sy'n cefnogi hawliau. Os nad yw'r disgyblion wedi nodi ei gilydd, gofynnwch i'r disgyblion "Pwy sydd â'r nifer mwyaf yn y dosbarth yma – oedolion neu blant?" Yr ateb fydd plant bob amser, felly gofynnwch, "Pwy arall sydd angen sicrhau eich bod chi'n cadw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel yn y dosbarth?"</p> <p>Defnyddiwch eu hatebion i gychwyn trafodaeth am gefnogi hawliau eich gilydd.</p>	<p>Gallech chi ddefnyddio hyn yn gyfle i drafod pa fath o ymddygiad sydd ei angen ar y dosbarth cyfan i greu dosbarth neu ysgol sy'n cefnogi hawliau. Gallech chi seilio'r trafodaethau ar yr hawliau mae'r plant wedi'u dewis, e.e. Erthygl 19 – mae gen ti hawl i fod yn ddiogel – beth mae angen i ni wneud i sicrhau bod pawb ohonoch chi'n ddiogel yn yr ysgol?</p>
<p><b>Llysgenhadon Gwych a Myfyrio</b></p> <p>Myfyriwch ar drafodaethau'r disgyblion a'u hatgoffa am rai o'r oedolion gafodd eu henwi. Atgoffwch y disgyblion fod Comisiynydd Plant Cymru yn oedolyn yng Nghymru sy'n gweithio i helpu holl blant Cymru i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.</p> <p>Esboniwch wrth y disgyblion, os yw plant i brofi eu hawliau, bod rhaid iddyn nhw wybod amdanynt. Esboniwch fod gan Gomisiynydd Plant Cymru brosiect arbennig o'r enw Llysgenhadon Gwych. Mae Llysgenhadon Gwych yn helpu'r Comisiynydd i roi'r gair ar led am hawliau plant.</p> <p>Manteisiwch ar y cyfle yma i gyflwyno eich Llysgenhadon Gwych ac esbonio'r tair tasg bwysig sydd ganddyn nhw.</p>	<p>Gallwch chi ddefnyddio'r fideo sy'n rhan o daflen weithgaredd y Comisiynydd i gyflwyno'r Comisiynydd i'r disgyblion.</p> <p>Os hoffech chi ymuno â'n cynllun DI-DÂL, cewch ragor o wybodaeth <a href="#">yma</a>.</p>

<p>Tasg 1: Dweud wrth bobl eraill yn yr ysgol am hawliau plant Tasg 2: Dweud wrth bobl eraill yn yr ysgol am Gomisiynydd Plant Cymru Tasg 3: Cymryd rhan mewn tasg arbennig bob tymor.</p>	
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--